

## Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

### Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd: templed ar gyfer astudiaethau achos

<b>Sefydliad:</b>	Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (PGW)
<b>Thema cenhadaeth ddinesig (dewiswch o'r gwymplen):</b>	Arwain lle
<b>Gweledigaeth ar gyfer elfennau ymchwil ac arloesi (dewiswch bob un sy'n berthnasol):</b>	<input checked="" type="checkbox"/> Rhagoriaeth <input checked="" type="checkbox"/> Lle <input checked="" type="checkbox"/> Arloesi <input checked="" type="checkbox"/> Cydweithredu
<b>Teitl yr astudiaeth achos / prosiect / menter:</b>	<b>Arweinyddiaeth a newid system gyfan: Gweithio mewn ffyrdd newydd</b>
<b>Disgrifiad cryno: (uchafswm o 150 o eiriau)</b> [Yn gryno, disgrifiwch y prosiect, gan gynnwys grwpiau yn y gymuned yr ymgysylltwyd â nhw, a sut y cafodd ei ariannu. A oedd y prosiect yn seiliedig ar dystiolaeth / wedi'i lywio gan ymchwil?]  Mae PGW yn bartner ym Mudiad Cymdeithasol 2025 Gogledd Cymru ['Mudiad 2025']. Gweledigaeth y mudiad yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau osgoadwy yn y sector iechyd a thai yng ngogledd Cymru, lle mae disgwyl i bobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig fyw tair blynedd ar ddeg yn llai na'r rheiny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (Iechyd Cyhoeddus Cymru y GIG, 2017).  Nod dull gweithredu'r Mudiad 2025, sydd wedi'i sefydlu mewn arweinyddiaeth systemau, yw trawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio, meddwl a chyflawni yng ngogledd Cymru drwy dimau 'Gwneud'.  PGW yw'r prif dîm Gwneud ar gyfer Arweinyddiaeth a Dysgu gyda Chymar Diwydiannol Gwadd, Ken Perry o Do-Well (UK) Ltd a hwylusodd ddatblygiad y mudiad gydag arweinwyr yn y sector tai, iechyd a llywodraeth leol. Yn ystod 2018-2019, bu i ni gyd-greu rhaglen addysg arweinyddiaeth systemau gyda dros o 120 o bartneriaid, gan gynnwys cwrs byr a gynigwyd i'r holl Lywodraethwyr ledled Cymru i'w cefnogi nhw i roi Cwricwlwm i Gymru 2022 ar waith.  Cafodd y ddau brosiect gefnogaeth gan Gronfa Ymgysylltiad Dinesig HEFVC, ac wrth i ni gefnogi arweinyddiaeth i Lywodraethwyr gweithiasom ar y cyd â'r Brifysgol Agored a Phrifysgol Caerdydd, yn ymgysylltu ar draws sbectrwm eang o sgiliau a chefnogi newid systemig.	

**Effaith y prosiect / menter: (uchafswm o 200 o eiriau)**

[Disgrifiwch effaith wirioneddol y fenter, gan gynnwys mewnwleidiadau a gafwyd a deilliannau cadarnhaol (p'un ai'n rhai a gynlluniwyd neu'n rhai annisgwyl)]

Drwy weithio gyda Mudiad 2025 i gyd-greu dull gweithredu arweinyddiaeth, pwysleisiwyd rôl prifysgol fel hwylusydd a galluogwr ffyrdd o weithio cydweithredol a chymhwysol.

Mae Mudiad 2025 wedi cyflawni effaith strategol sylweddol:

- Mae'r mudiad wedi tyfu i dros 500 o aelodau.
- Cyrhaeddodd y rownd derfynol yn Guardian Public Services Awards 2019 yn y categori iechyd a lles cyhoeddus.
- Fel rhan o'i genhadaeth ddinesig, bu i PGW gyd-awduro, ynghyd â Clare Budden, Cadeirydd 2025, a Ken Perry, o PGW a Do-Well, pennod yn: 'University-Community Partnerships for promoting social responsibility in Higher Education' (i'w gwblhau Gorffennaf 2020), yn canolbwyntio ar: Fynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Osgoadwy: Rôl Un Brifysgol o ran Newid Trawsnewidiol ar sail Lle.

Mae'r cwrs byr arweinyddiaeth systemau a'r arweinyddiaeth/dysg sydd wedi'i chyd-greu gyda 2025 wedi ehangu cymuned o arweinwyr:

- Mewn digwyddiad dosbarth meistr fis Tachwedd 2019, ymgysylltwyd â thros 75 o arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion ledled Cymru a chafwyd trafodaethau dilynol gyda Gwasanaethau Governors Cymru.
- Drwy weithio gyda'r Brifysgol Agored a Chaerdydd, dangoswyd y dull gweithredu tair prifysgol gydag elfennau o arweinyddiaeth systemau.
- Rydym wedi datblygu cymuned o arweinwyr yng ngogledd Cymru gyda dros 80 o unigolion ar draws amrywiaeth o sefydliadau ac wedi gweithio gyda'r meysydd iechyd, iechyd meddwl, tai, yr heddlu, iechyd cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Arweiniodd hyn at ddatblygu model newydd ar gyfer y timau Gwneud ym Mudiad 2025, yn seilio dulliau gweithredu ar ymchwil a thystiolaeth gymhwysol a model a ffordd newydd o weithio ar gyfer cenhadaeth ddinesig y Brifysgol.

**Gweithgarwch yn y dyfodol: (uchafswm o 150 o eiriau)**

[A yw'r prosiect bellach yn gynaliadwy, neu a oes cynlluniau ar gyfer prosiectau dilynol - os felly, sut caiff y rhain eu hariannu?]

Bydd y ffocws ar arweinyddiaeth systemau yn parhau mewn nifer o ffyrdd ledled gogledd Cymru. Gan ddefnyddio'r Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, ein nod yw cryfhau'r cysylltiadau gyda Mudiad 2025 drwy gefnogi Timau Gwneud - gan ganolbwyntio ar ymchwil a thystiolaeth eu heffaith.

Drwy ddysgu gan Mudiad 2025, mae PGW wedi dylunio fframwaith wedi'i greu ar y cyd ar gyfer ein cenhadaeth ddinesig newydd gyda ffocws clir ar roi diwedd ar anghydraddoldeb cymdeithasol erbyn 2030 - rhywbeth y gwyddom na allwn ei wneud ar ein pen ein hunain.

Ein cenhadaeth uchelgeisiol yw gweithio mewn partneriaeth, gan ganolbwyntio ein hadnoddau ac amser ar dri maes blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys arweinyddiaeth, llywodraethiant a gwaith system gyfan.

Bydd hyn yn cynnwys cefnogi arweinyddiaeth mewn ysgolion - yn enwedig Llywodraethwyr - i roi'r Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd ar waith. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal drwy Lab Gwasanaeth Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi'i greu ar y cyd, sef gofod deallusol a ffisegol sy'n dwyn pobl a chymunedau ynghyd i archwilio heriau cymdeithasol a datblygu datrysiadau - yn seiliedig ar ymchwil ac arloesedd cymhwysol.

Byddwn yn gweithio gyda:

- Prosiectau cyfredol a rhai newydd
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru a'r Grŵp Adfer Rhanbarthol ar gyfer COVID19
- Timau Mudiad 2025 sy'n canolbwyntio ar unigedd cymdeithasol ac iechyd meddwl/casglu nwyddau.

Byddwn hefyd yn datblygu dull gweithredu peilot gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Hwb Cenedlaethol Cymorth Profiadau Niweidiol mewn Plentynodod i ddod yn Brifysgol sy'n Ystyried Trawma gyda'n partneriaid cymunedol.

**Dyfyniad(au) gan bartner prosiect allanol, er enghraifft: (tua 60 o eiriau)**

[Mae'n bosib y gallai CCAUC gyhoeddi'r astudiaeth achos hon – rhowch ddyfyniad sy'n helpu i ddangos effaith yr ymgysylltiad]

**Ken Perry, Cymar Diwydiannol Gwadd (PGW) a Chyfarwyddwr Do-Well Ltd.**

"Dechreuodd mudiad 2025 gyda grŵp bach o arweinwyr iechyd, tai a llywodraeth leol a oedd yn flin bod anghysondebau iechyd a chymdeithasol osgoadwy yn dal i fodoli yn ein cymdeithas. Mae eu hangerdd a'u hymroddiad wedi parhau i ymgysylltu mudiad cynyddol ar draws sefydliadau a ffiniau gogledd Cymru gyda dros 500 o bobl sydd eisiau gweithio gyda'i gilydd a meddwl yn wahanol i greu rhanbarth mwy cyfartal sy'n creu cyfleoedd i bawb."

**Jane Morris, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Governors Cymru**

"Roedd y dosbarth meistr a fynychwyd gan lywodraethwyr ysgol ledled Cymru fis Tachwedd 2019 yn ffordd ragorol i lywodraethwyr ysgol ennill cipolwg a dealltwriaeth o arweinyddiaeth systemau. Cafwyd brwdfrydedd a diddordeb mawr yn y rhaglen. Nid yw'r angen erioed wedi bod yn fwy am lywodraethwyr fel prif arweinwyr i feddwl yn wahanol gyda phartneriaid i gyflwyno newid trawsnewidiol, yn arbennig wrth weithredu'r Cwricwlwm Newydd."

**Vicky Jones, Arweinydd Partneriaeth Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod, Iechyd Cyhoeddus Cymru**

"Nid mynychu cwrs hyfforddiant yn unig oedd fy mhrofiad o gymryd rhan yn y cwrs cyflwyniad i arweinyddiaeth systemau, ond fel ffordd hollol newydd o weithio, sy'n cefnogi gwthio'r cyfyngiadau a geir wrth weithio'n arbennig o fewn ffiniau cyfundrefnol traddodiadol ac mewn gwirionedd yn camu drostynt i fynd i'r afael â materion cymhleth a dwfn.

Mae wedi trawsnewid y ffordd yr wyf yn ymdrin â materion cymhleth ac wedi cael gwared ar beth o'r pryder sy'n dweud ei fod yn rhy fawr ac yn rhy anodd. Mae wedi creu amgylchedd cydweithio a thwf i weithio gyda phobl gyffelyb a gwybodus sy'n gweithio ar y cyd ac yn arloesol i wneud newidiadau cadarnhaol sydd ag effeithiau pellgyrhaeddol."

<p><b>Cysylltiadau:</b> <b>(gwefan; enw cyswllt; cyfeiriad e-bost; rhif ffôn)</b> Nina Ruddle Pennaeth Ymgysylltiad Polisi Cyhoeddus Prifysgol Glyndŵr Wrecsam <a href="http://www.glyndwr.ac.uk">www.glyndwr.ac.uk</a> <a href="mailto:nina.ruddle@glyndwr.ac.uk">nina.ruddle@glyndwr.ac.uk</a> <b>07809 538927</b></p>	<p>Clare Budden, Cadeirydd 2025 a Phrif Weithredwr ClwydAlyn <a href="http://www.2025.Movement.org">www.2025.Movement.org</a> <a href="mailto:clare.budden@clwydalyn.co.uk">clare.budden@clwydalyn.co.uk</a> @2025.Movement</p> <p>Ken Perry, Cyfarwyddwr Do-Well (UK) Ltd <a href="http://www.do-well.co.uk">www.do-well.co.uk</a> <a href="mailto:Ken.perry@do-well.co.uk">Ken.perry@do-well.co.uk</a> @DoWell_uk</p> <p>Vicky Jones, Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod Ymgysylltiad Cymunedol a Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru <a href="mailto:Vicky.jones12@wales.nhs.uk">Vicky.jones12@wales.nhs.uk</a> <a href="http://www.aceawarewales.com">www.aceawarewales.com</a> @acehubwales</p> <p>Jane Morris, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Governors Cymru <a href="mailto:jane@governors.cymru">jane@governors.cymru</a></p> <p><a href="http://www.governors.cymru">www.governors.cymru</a> @governorscymru</p>
--	--

<p><b>Sut wnaeth y gweithgarwch helpu i gefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (dewiswch bob un sy'n berthnasol):</b></p>	<ul style="list-style-type: none"><li><input checked="" type="checkbox"/> Cymru lewyrchus</li><li><input checked="" type="checkbox"/> Cymru gydnerth</li><li><input checked="" type="checkbox"/> Cymru iachach</li><li><input checked="" type="checkbox"/> Cymru sy'n fwy cyfartal</li></ul>
--	--

- |  |  |
|--|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"><li><input checked="" type="checkbox"/> Cymru o gymunedau cydlynus</li><li><input checked="" type="checkbox"/> Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</li><li><input checked="" type="checkbox"/> Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</li></ul> |
|--|--|

[Yn gryno, disgrifiwch sut wnaeth y prosiect helpu i gefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015]

Roedd y dull gweithredu cyfan o ran cyd-greu'r rhaglen arweinyddiaeth systemau yn seiliedig ar yr angen am arweinyddiaeth newydd ar draws ffiniau adrannol, cyfundrefnol a sectorau, sef y prif ffocws ar gyfer y pum ffordd newydd o weithio sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth. Mae'r dull gweithredu arweinyddiaeth system yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) Cymru ac o ystyried graddfa a chwmpas y bobl yr ydym wedi gweithio gyda nhw a datblygu cymuned o arweinwyr, rydym ni i gyd yn gweithio'n weithredol gyda'n gilydd i gyfrannu at y saith nod llesiant ac yn bwysicach fyth, i hwyluso a galluogi'r pum ffordd o weithio i gyflawni yn erbyn y nodau hyn.